ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB A'R GYMRAEG

Cynnig i Uno Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm i greu un ysgol ardal ar 1 Medi 2019

Gwanwyn 2018

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

1. Cyflwyniad

1.1. Mae Cyngor Sir y Fflint yn dymuno ceisio barn partïon â diddordeb ynghylch y cynnig i Uno Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm i greu un ysgol ardal o 1 Medi 2019.

1.2. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi gwybodaeth y dylai ymgyngoreion ystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn canllawiau rheoleiddio fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013.

1.3. Mae'r ffigurau, yr ystadegau a'r deunydd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi.

2. Diben yr Asesiad

2.1. Nod asesiad effaith cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg (AEC) yw sicrhau bod polisïau yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a'r Gymraeg. Mae'r AEC yn cyfrannu at lunio polisïau effeithiol trwy ddarparu cyfle i leihau risg a gwneud y mwyaf o fanteision polisi, ac felly sicrhau bod gennym y polisi gorau posibl yn ei le. Mae'n ein helpu hefyd i fodloni ein gofynion dan ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf yr Iaith Gymraeg a Mesur yr Iaith Gymraeg 2011.

2.2. Dylai pob Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Cymraeg a Saesneg ystyried effaith bosibl polisïau sy'n ymwneud â holl feysydd cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg gan gynnwys hawliau dynol a materion economaidd cymdeithasol. Wrth gynnal asesiad, dylech ystyried canlyniadau negyddol a chadarnhaol eich cynigion.

2.3. Bydd ein hymagwedd at Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn ein helpu i gryfhau ein gwaith i hyrwyddo cydraddoldeb a'r Gymraeg. Bydd hefyd yn helpu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau gwahaniaethol posibl cyn cyflwyno polisi ac yn lleihau'r risg o heriau cyfreithiol posibl.

2.4. Mae'r ddogfen AEC hon wedi ystyried canlyniadau negyddol a chadarnhaol y cynigion.

3. Casglu Data

3.1. Cynhaliwyd trafodaethau gyda Grŵp Sicrwydd Ansawdd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint, sy'n cynnwys Swyddogion ac aelodau'r cyhoedd sy'n cynrychioli pobl gyda nodweddion a ddiogelir. Mae'r grŵp yn helpu nodi canlyniadau posib y cynnig, yn awgrymu mentrau i leihau effeithiau negyddol posib a hybu canfod effeithiau cadarnhaol.

3.2. Bob blwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ac mae'r data a gasglwyd ym mis Ionawr 2017, ynghyd â gwybodaeth o Adroddiadau Arolygu Estyn a'r Gwasanaethau Cynhwysiant, wedi cael eu dadansoddi er mwyn nodi effeithiau posib ar ddisgyblion.

3.3. Casglwyd gwybodaeth am y gweithlu o'r Tîm Partner Busnes Adnoddau Dynol. Ni chaiff gwybodaeth Rhieni a Llywodraethwyr am nodweddion a ddiogelir ei chofnodi.

3.4. Bydd yr AEC yn ffurfio rhan o'r dogfennau ymgynghori a fydd ar gael yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Bydd adborth a gasglwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei ymgorffori i'r adroddiad Cabinet terfynol.

4. Ymgynghoriadau

4.1. Bydd digwyddiadau ymgynghori yn cael eu cynnal ymhob ysgol i roi'r cyfle i rieni, gofalwyr, gwarchodwyr, staff a llywodraethwyr drafod y cynigion yn fanylach gyda Swyddogion Yr Awdurdodau Lleol ac i ofyn unrhyw gwestiynau perthnasol. Bydd ymgynghoriad hefyd yn cael ei gynnal â phlant a phobl ifanc Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm, ynghyd â disgyblion ysgolion allai gael eu heffeithio, trwy eu Cynghorau Ysgol.

5. Gwybodaeth Ychwanegol

5.1. Cynigwyd y cynnig o ganlyniad i strategaeth Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod Lleol, a gellir dod o hyd i'r manylion hynny ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx

5.2. Casglwyd y wybodaeth ar ran Claire Homard, Prif Swyddog Interim dros Addysg ac Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint.

6. Diffiniadau Nodweddion Gwarchodedig

6.1. Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd

Nodwedd a ddiogelir	Disgyblion[1]	Rhieni/ Gofalwyr	Staff[2]	Llywodraethwyr
Ystod Oedran (blynyddoedd)	3-11	Nid yw'r wybodaeth ar gael	25-64	Nid yw'r wybodaeth ar gael
Rhyw	30 bachgen (44.12%) 38 merch (55.88%) 68 Llawn amser.	Nid yw'r wybodaeth ar gael	0 Gwryw (0%) 13 Benyw (100%) 3 Swydd Llawn Amser (13.04%) 0 Swydd Llawn Amser Tymor yn Unig (0%) 5 Swydd Rhan Amser (21.74%) 15 Swydd Rhan Amser Tymor yn Unig (65.22%)	2 Gwryw 8 Benyw
Anabledd	Llai na 10 disgybl gyda Datganiad Anghenion Arbennig. Mae 17 o ddisgyblion nad oes ganddynt ddatganiad o addysg arbennig ond yn derbyn rhywfaint o gymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Nid yw'r wybodaeth ar gael	0% wedi datgan anabledd 53.85% wedi datgan dim anabledd 46.15% Heb ddatgan	Nid yw'r wybodaeth ar gael

[1] (Pupil Level Annual School Census, Jan. 2017)

[2] (FCC Workforce Statistics, Jan. 2018)

Nodwedd a ddiogelir	Disgyblion[1]	Rhieni/ Gofalwyr	Staff[2]	Llywodraethwyr
	Mae llai na 10 o ddisgyblion wedi nodi anawsterau corfforol			
Hil	95.59% Gwyn-Prydeinig 4.41% Heb ddatgan 0 o'r disgyblion sy'n derbyn cymorth gyda Saesneg fel iaith ychwanegol.	Nid yw'r wybodaeth ar gael	53.85% Gwyn 46.15% Heb ddatgan	Nid yw'r wybodaeth ar gael
Crefydd a Chred	Amherthnasol	Nid yw'r wybodaeth ar gael	15.38% Cristion 7.69% Dim 7.69% Arall 69.23% Heb ddatgan	Nid yw'r wybodaeth ar gael
Priodas a Phartneriaethau Sifil	Amherthnasol	Nid yw'r wybodaeth ar gael	53.85% Yn briod neu mewn partneriaeth sifil 46.15% Heb ddatgan	Nid yw'r wybodaeth ar gael
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Amherthnasol	Nid yw'r wybodaeth ar gael	0% ar Gyfnod Mamolaeth	Nid yw'r wybodaeth ar gael
Tueddfryd Rhywiol	Amherthnasol	Nid yw'r wybodaeth ar gael	Heterorywiol / Strêt = 30.77% 69.23% Heb ddatgan	Nid yw'r wybodaeth ar gael
Ailbennu Rhyw	Amherthnasol	Nid yw'r wybodaeth ar gael	Nid yw'r wybodaeth ar gael	Nid yw'r wybodaeth ar gael
Y Gymraeg	Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd yn Ysgol Gyfrwng Saesneg (CS)	Nid yw'r wybodaeth ar gael	Athrawon / Staff Cymorth 20% / 40% yn siarad Cymraeg yn rhugl 80% / 60% o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl 0% / 0% Methu siarad Cymraeg	Nid yw'r wybodaeth ar gael

Tabl 1: Gwybodaeth Nodweddion Gwarchodedig Ysgol Brynffordd

6.2. Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm

Nodwedd a ddiogelir	Disgyblion[3]	Rhieni / Gofalwyr	Staff[4]	Llywodraethwyr
Ystod Oedran (blynyddoedd)	3-11	Nid yw'r wybodaeth ar gael	25-59.	Nid yw'r wybodaeth ar gael
Rhyw	31 bachgen (62.00%) 19 merch (38.00%) 50 Llawn Amser	Nid yw'r wybodaeth ar gael	1 Gwryw (7.69%) 12 Benyw (92.31%) 3 Swydd Llawn Amser (17.65%) 0 Swydd Llawn Amser Tymor yn Unig (0%) 6 Swydd Rhan Amser (35.29%) 8 Swydd Rhan Amser Tymor yn Unig (47.06%)	3 Gwryw 7 Benyw
Anabledd	Llai na 10 disgybl gyda Datganiad Anghenion Arbennig. Mae 11 o ddisgyblion nad oes ganddynt ddatganiad o addysg arbennig ond yn derbyn rhywfaint o gymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Mae llai na 10 o ddisgyblion wedi nodi anawsterau corfforol	Nid yw'r wybodaeth ar gael	61.54% wedi datgan dim anabledd 38.46% Heb ddatgan	Nid yw'r wybodaeth ar gael
Hil	97.96% Gwyn-Prydeinig	Nid yw'r wybodaeth ar gael	69.23% Gwyn	Nid yw'r wybodaeth ar gael

[3] (Pupil Level Annual School Census, Jan. 2017)

[4] (FCC Workforce Statistics, Jan. 2018)

Nodwedd a ddiogelir	Disgyblion[3]	Rhieni / Gofalwyr	Staff[4]	Llywodraethwyr
	2.04% Heb ddatgan 0 o'r disgyblion sy'n derbyn cymorth gyda Saesneg fel iaith ychwanegol.		30.77% Heb ddatgan	
Crefydd a Chred	Amherthnasol	Nid yw'r wybodaeth ar gael	23.08% Cristion 15.38% Dim 61.54% Heb ddatgan	Nid yw'r wybodaeth ar gael
Priodas a Phartneriaethau Sifil	Amherthnasol	Nid yw'r wybodaeth ar gael	46.15% Yn briod neu mewn partneriaeth sifil 53.85% Heb ddatgan	Nid yw'r wybodaeth ar gael
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Amherthnasol	Nid yw'r wybodaeth ar gael	Cyfnod Mamolaeth = 0%	Nid yw'r wybodaeth ar gael
Tueddfryd Rhywiol	Amherthnasol	Nid yw'r wybodaeth ar gael	Heterorywiol / Strêt = 30.77% 69.23% Heb ddatgan	Nid yw'r wybodaeth ar gael
Ailbennu Rhyw	Amherthnasol	Nid yw'r wybodaeth ar gael	Nid yw'r wybodaeth ar gael	Nid yw'r wybodaeth ar gael
Y Gymraeg	Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn Ysgol Gyfrwng Saesneg (CS)	Nid yw'r wybodaeth ar gael	33% yn siarad Cymraeg yn rhugl 66% o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl 0% Methu siarad Cymraeg	Nid yw'r wybodaeth ar gael

Tabl 2: Gwybodaeth Nodweddion Gwarchodedig Ysgol Licswm

7. Effeithiau Posibl

7.1. Gadael pethau fel y maent (Dwy Ysgol Annibynnol)

Nodwedd a ddiogelir	Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd School	Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm	Camau i Liniaru'r Effeithiau Posib
Ystod Oedran (blynyddoedd)	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Rhyw	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Anabledd	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Hil	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Crefydd a Chred	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Priodas a Phartneriaethau Sifil	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Tueddfryd Rhywiol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Ailbennu Rhyw	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Y Gymraeg	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Arall	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	

Tabl 3: Effeithiau Posibl o Adael Pethau fel y Maent

7.2. Cam 1 Arfaethedig (Un Ysgol Ardal ar Ddau Safle)

Nodwedd a ddiogelir	Effeithiau Negyddol Posibl ar Ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd School Pupils	Effeithiau Negyddol Posibl ar Ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm School Pupils	Camau i Liniaru'r Effeithiau Negyddol Posib
Ystod Oedran (blynyddoedd)	Gwisg ysgol newydd i'r disgyblion; Perygl o ddiswyddo staff; Lleihau'r corff llywodraethu.	Gwisg ysgol newydd i'r disgyblion; Perygl o ddiswyddo staff; Lleihau'r corff llywodraethu.	Darparu Mynediad i Raglen Gyfnewid Gwisg Ysgol Cefnogaeth unigol i staff; Cefnogaeth ar y cyd i gyrff llywodraethu.
Rhyw	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Anabledd	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Hil	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Crefydd a Chred	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Priodas a Phartneriaethau Sifil	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Efallai y byddai cyfathrebu gyda staff ynglŷn ag absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth mewn perygl	Efallai y byddai cyfathrebu gyda staff ynglŷn ag absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth mewn perygl	Bydd cynrychiolydd o'r Tîm Partner Busnes Adnoddau Dynol yn cael eu penodi i ymgysylltu'n uniongyrchol gydag unigolion
Tueddfryd Rhywiol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Ailbennu Rhyw	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Y Gymraeg	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Arall	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	

Tabl 4: Effeithiau Posibl Cam 1

7.3. Cam 2 Arfaethedig (Un Ysgol Ardal ar Un Safle)

Nodwedd a ddiogelir	Effeithiau Negyddol Posibl ar Ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd School Pupils	Effeithiau Negyddol Posibl ar Ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm School Pupils	Camau i Liniaru'r Effeithiau Negyddol Posib
Ystod Oedran (blynyddoedd)	Gallai effeithio ar grwpiau cyfeillgarwch; Pryder ynghylch amgylchedd dysgu newydd; Perygl o ddiswyddo staff; Lleihau'r corff llywodraethu.	Gallai effeithio ar grwpiau cyfeillgarwch; Pryder ynghylch amgylchedd dysgu newydd; Perygl o ddiswyddo staff; Lleihau'r corff llywodraethu.	Cefnogaeth Trawsnewid i bob disgybl; Cefnogaeth unigol i staff; Cefnogaeth ar y cyd i gyrff llywodraethu.
Rhyw	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Anabledd	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Hil	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Crefydd a Chred	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Priodas a Phartneriaethau Sifil	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Efallai y byddai cyfathrebu gyda staff ynglŷn ag absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth mewn perygl	Efallai y byddai cyfathrebu gyda staff ynglŷn ag absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth mewn perygl	Bydd cynrychiolydd o'r Tîm Partner Busnes Adnoddau Dynol yn cael eu penodi i ymgysylltu'n uniongyrchol gydag unigolion
Tueddfryd Rhywiol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Ailbennu Rhyw	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Y Gymraeg	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	
Arall	Ni ddisgwylir unrhyw effaith gwahaniaethol negyddol	Bydd amseroedd teithio rhai disgyblion yn cael eu	Gwnaed Asesiad Effaith ar Drafnidiaeth llawn ac mae ar gael fel dogfen ar wahân.

Nodwedd a ddiogelir	Effeithiau Negyddol Posibl ar Ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd School Pupils	Effeithiau Negyddol Posibl ar Ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm School Pupils	Camau i Liniaru'r Effeithiau Negyddol Posib
		cynyddu a rhai yn cael eu lleihau	

Tabl 5: Effeithiau Posibl Cam 1

8. Anogaeth Effeithiau Cadarnhaol

8.1. Er na ddisgwylir unrhyw effeithiau gwahaniaethol negyddol mewn rhai meysydd, mae nifer o ddulliau cefnogi ar waith yn gymorth i'r unigolion hynny a fyddai'n cael eu heffeithio gan newidiadau posibl, mae'r rhain yn cynnwys (rhestr anghyflawn):

- Bydd unrhyw ddisgybl, rhiant/gofalwr, aelod o staff neu lywodraethwr gyda nodwedd warchodedig yn cael eu darparu gyda chefnogaeth briodol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.
- Bydd pob disgybl, ni waeth beth fo'u hoedran, rhyw, anabledd, hil, cred grefyddol ac iaith gyntaf yn cael cynnig cefnogaeth trawsnewid a bugeilio os ydynt yn cael eu heffeithio gan y cynnig;
- Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i leihau aflonyddwch i bob disgybl gan roi ystyriaeth benodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol;
- Nod Cyfnewid Gwisg Ysgol yw annog trigolion Sir y Fflint i ailgylchu a rhoi eitemau diangen neu sydd heb eu defnyddio o wisg ysgol yn hytrach na'u rhoi yn y bin. Gellir rhoi gwisgoedd ysgol i Hosbis Tŷ'r Eos a fydd yn didoli ac yn dosbarthu gwisgoedd ysgol ar draws Sir y Fflint.
- Mae hefyd yn weddol nodweddiadol y bydd y mwyafrif o ddisgyblion angen gwisgoedd newydd wrth iddynt ddod i mewn i flwyddyn academaidd newydd, felly efallai y bydd angen prynu gwisg ysgol newydd ni waeth pa ysgol y bydd y disgybl yn mynd iddi.
- Yn ogystal â pholisïau ysgol unigol i gefnogi staff mewn perygl o golli eu swyddi, bydd y Cyngor yn darparu cefnogaeth i archwilio cyfleoedd eraill a dewisiadau ymddeol.
- Bydd cefnogaeth yn cael ei roi i gyrff llywodraethu hefyd i helpu aildrefnu'r strwythur llywodraethol.
- Mae perfformiad cenedl yn cael ei fonitro ar lefel ysgol a bydd bylchau yn cael eu datblygu drwy'r Cynllun Gweithredu gan yr Ysgol.
- Gyda nifer o wasanaethau sy'n perthyn i'w gilydd, mae Gwasanaeth Cynhwysiant y Cyngor yn diogelu bod ei dyletswydd o dan Cod Ymarfer AAA Cymru 2002 yn cael ei ddarparu. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:
  - Gwasanaeth Seicoleg Addysg;
  - Gwasanaeth Cwnsela Pobl Ifanc
  - Gwasanaeth Synhwyrau ;
  - Saesneg fel iaith ychwanegol / Gwasanaeth Teithwyr Sipsiwn;
  - Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol;
  - Gwasanaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu;
  - Gwasanaeth Lles Addysg;
  - Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad;
  - Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol; a
  - Gwasanaeth Cyflwr Sbectrwm Awtistig.
- Mae'r Cyngor yn gweithio o fewn cyfyngiadau Deddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau adeiladau ysgol hygyrch ar gyfer ei ddisgyblion, rhieni a gofalwyr, staff a llywodraethwyr. Mae disgybl ag anabledd yn cael ei asesu ar sail unigol ac mae cyllideb ar gael i addasu ysgolion er mwyn rhoi mynediad i'r cwricwlwm iddynt. Serch hynny, mae'n rhaid i newidiadau i adeiladau ddiwallu anghenion disgyblion ag anableddau a bod yn gyfatebol ac yn rhesymol o fewn y gyllideb sydd ar gael;
- Bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i fonitro darpariaeth a chyflawniad disgyblion ac ysgolion sy'n ymwneud â'r maes llafur Addysg Grefyddol a gytunwyd arno;
- Mae ysgolion cynradd enwadol ac anenwadol i rai 3 -11s ar gael yn Sir y Fflint a pe bai disgyblion yn cael eu gwasgaru ac yn dymuno cael mynediad i addysg ffydd;

- Bydd cynrychiolydd o Dîm Partner Busnes Adnoddau Dynol Cyngor Sir y Fflint yn cael eu penodi i ymgysylltu'n uniongyrchol gydag unigolion er mwyn darparu cyngor a chyfarwyddyd ar gyfleoedd i adleoli, ymddeol a, pan fo hynny'n angenrheidiol, dileu swyddi.
- Bydd y Cyngor yn trefnu cyfarfodydd gyda'r Undebau Llafur perthnasol i drafod unrhyw effeithiau'r cynnig, pe bai'n cael ei weithredu.
- Mae Cyngor Sir y Fflint yn datblygu Polisi Traws i ysgolion ar hyn o bryd. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i ysgolion;
- Mae gan y ddwy ysgol eu datganiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain, Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ogystal â pholisïau cyflogaeth i gefnogi staff drwy unrhyw gyfnod o drawsnewid. Dylai fod gan bob ysgol eu hethos eu hunain ynghylch hybu cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da.
- Os yw rhieni/gofalwyr yn dewis Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg fel dewis arall, mae Ysgol Gwenffrwd yn Nhreffynnon tua 2.0 filltir o Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd, a thua 3.8 milltir o Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm;
- Bydd gan ddisgyblion a staff ag anabledd gwell fynediad at gyfleusterau ysgol;
- Bydd gan ddisgyblion a staff traws gwell fynediad at doiledau niwtral o ran y rhywiau.

8.2. Mae gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol GwE yn monitro pob ysgol yn rheolaidd ac mae'r ysgolion hefyd yn cael eu harolygu trwy Estyn.

9. Gwybodaeth Ychwanegol

9.1. Effeithiau Negyddol Lle Nad Oes Camau Gweithredu Angenrheidiol

Dim.

9.2. Caffael

Amherthnasol

9.3. Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

Bydd effaith ac effeithiolrwydd y polisi newydd yn cael eu monitor gan adolygu:

- Gwybodaeth arolwg CYBLD;
- Effeithiau ar ddisgyblion sy'n symud o safleoedd presennol gyda Gwasanaethau Cynhwysiant;
- Dangosyddion cenedlaethol sy'n seiliedig ar berfformiad, gyda GwE/Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (Gwasanaeth Effeithiolrwydd Ysgolion) a thrwy Estyn; a Adolygu data a gasglwyd drwy'r broses ymgynghori ar y nodweddion gwarchodedig.

10. Casgliad

10.1. Mae polisïau, gweithdrefnau a systemau ar waith i leihau'r effeithiau negyddol a ddisgwylir gan yr asesiad hwn. Os bydd gweithredu'r cynnig yn arwain at effeithiau negyddol nad ydynt wedi cael eu nodi, bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i ddarparu cefnogaeth briodol i'r unigolion ac/neu'r grwpiau a effeithir.

10.2. Bydd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint ynghyd â'r ddogfennaeth ymgynghori a fydd yn cael ei fonitro drwy gydol gweithrediad y cynnig os yw'n cael ei gyflawni.

10.3. Mae dolen i'r wefan isod, a fydd yn cael ei ddarparu i ysgolion hefyd:

http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx

11. Datganiad

11.1. Cam olaf yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yw cymeradwyo'r ddogfen yn ffurfiol fel bod yn asesiad cyflawn, trwyadl a chadarn

11.2. Mae'r polisi wedi cael ei asesu'n llawn mewn perthynas â'i effeithiau posibl ar gydraddoldeb ac mae'r holl bryderon perthnasol wedi derbyn sylw.

12. Y Tîm Asesu

ENW	TEITL Y SWYDD	SEFYDLIAD
Sarah Thomas	Swyddog Prosiect Moderneiddio Ysgolion	Cyngor Sir y Fflint
Nathan Evans	Swyddog Prosiect Moderneiddio Ysgolion	Cyngor Sir y Fflint
Stephanie Aldridge	Gweithiwr Cefnogi Polisi a Pherfformiad	Cyngor Sir y Fflint
Fiona Mocko	Ymgynghorydd Polisi (Cydraddoldeb a Chydlyniant)	Cyngor Sir y Fflint

13. Gwirio Ansawdd

Gwriwyd y ddogfen hon gan:

Damian Hughes Dyddiad 15/03/2018
Uwch Reolwr Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion
Addysg ac Ieuenctid, Cyngor Sir y Fflint

Claire Homard Dyddiad 15/03/2018
Prif Swyddog Interim
Addysg ac Ieuenctid, Cyngor Sir y Fflint